



Adran Gwaith
a Phensiynau

Deddf Awdurdodau Cyhoeddus (Twyll, Gwall ac Adfer) Codau Ymarfer DWP: Gwirio Cymhwysedd yn y system Les, Cael Gwybodaeth ac Adennill Dyled

Ymgynghoriad ar y Cod Ymarfer Mesurau Gwirio
Cymhwysedd, y Cod Ymarfer Adennill Dyledion a'r
Cod Ymarfer Casglu Gwybodaeth

Dyddiad cyhoeddi 8 Rhagfyr 2025

Rhagair

Dros y degawd diwethaf, mae twyllwyr wedi dod yn llawer mwy soffistigedig o ran y technegau a ddefnyddiwyd ganddynt i ddwyn arian pobl, drwy ddefnyddio data, technoleg a phob math o sgamiau. Mae twyll yn erbyn y sector cyhoeddus yn her sylweddol ac sy'n esblygu'n gyson, sy'n gofyn am ymateb cadarn a phenderfynol. Yn y system nawdd cymdeithasol, dengys amcangyfrifon DWP bod lefel gyffredinol y gordaliadau oherwydd twyll a gwall bron i £10bn yn 2024/25. Yn gyfan gwbl, gordalwyd £45bn yn y system nawdd cymdeithasol ers y pandemig (wedi'i fesur o 2020/21) oherwydd twyll a gwall. Nid yw twyll yn erbyn y sector cyhoeddus yn drosedd ddi-ddioddefwr. Mae'n cymryd arian o wasanaethau cyhoeddus hanfodol, yn erydu ymddiriedaeth, ac yn niweidio pobl sy'n ddiniwed. Yn y pen draw, gwasanaethau cyhoeddus sy'n dioddef, ac mae'r trethdalwr yn ddioddefwr y drosedd hon.

Wrth gyflenwi Cynllun Newid y Llywodraeth hwn, rydym wedi pasio'r diwygiad deddfwriaethol mwyaf arwyddocaol yn y degawd diwethaf i leihau twyll a gwallau yn y sector cyhoeddus. Mae'r Ddeddf Awdurdodau Cyhoeddus (Twyll, Gwall ac Adfer) yn diogelu arian trethdalwyr trwy helpu i nodi, atal a thwyll a gwallau ar draws y sector cyhoeddus, ac mae'n galluogi adennill dyled sy'n ddyledus i'r trethdalwr yn well. Amcangyfrifir y bydd Rhan 2 o'r Ddeddf yn darparu manteision o £1.5 biliwn tan 2029/30 fel rhan o gamau ehangach yn DWP i arbed cyfanswm o £9.6 biliwn.

Bydd y Llywodraeth yn dechrau gweithredu'r mesurau o 2026, unwaith y bydd y Codau Ymarfer yn cael eu cyhoeddi, i ddarparu canllaw ar y defnydd priodol o'r pwerau hyn ar draws DWP.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn nodi cyfle hanfodol i unigolion, sefydliadau ac arbenigwyr lunio sut mae'r pwerau hyn yn cael eu cymhwyso yn ymarferol, drwy sicrhau eu bod yn adlewyrchu gwerthoedd a disgwyliadau'r rhai y maent wedi'u cynllunio i'w gwasanaethu.

Rwyf yn ddiolchgar am yr ymgysylltiad helaeth â nifer o sefydliadau a sectorau allweddol sydd wedi bwydo i mewn i ddatblygu'r Codau drafft hyn ac yn croesawu'r ymgysylltiad parhaus pellach â'r Adran. Edrychwn ymlaen at gael eich adborth ar yr ymgynghoriad pwysig hwn.

Andrew Western AS, Gweinidog Trawsnewid, Yr Adran Gwaith a Phensiynau

Yr Ymgynghoriad hwn

Mae Deddf Awdurdodau Cyhoeddus (Twyll, Gwall ac Adfer) 2025 yn sefydlu fframwaith deddfwriaethol wedi'i foderneiddio i alluogi'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) i nodi, atal a lleihau twyll a gwallau yn y system nawdd cymdeithasol yn fwy effeithiol. Mae tri Chod Ymarfer drafft wedi'u datblygu, i sicrhau defnydd diogel, effeithiol a chymesur o bwerau newydd DWP. Er mwyn sicrhau llywodraethu a thryloywder priodol wrth arfer y pwerau newydd hyn, mae DWP wedi ymrwymo i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y Codau Ymarfer arfaethedig a ddatblygwyd o dan y Ddeddf.

Parhad: o 8fed Rhagfyr 2025 i 27 Chwefror 2026 (12 wythnos)

Ymholiadau (gan gynnwys ceisiadau am y papur mewn fformat arall) at:
cop.paferconsultation@dwp.gov.uk

Caiff ymatebion eu dadansoddi, a chyhoeddir dogfen ymateb i'r ymgynghoriad.

Sut i ymateb i'r ymgynghoriad hwn

Ar-lein – Cesglir ymatebion i'r ymgynghoriad yn bennaf trwy'r ddolen arolwg yma:
[Public Authorities \(Fraud, Error and Recovery\) Act DWP Codes of Practice – Fill in form](#)

E-bost - Gallwch hefyd gyflwyno sylwadau/ymatebion i'r ymgynghoriad drwy e-bost:
cop.paferconsultation@dwp.gov.uk

Post – Anfonwch unrhyw ymatebion i'r cyfeiriad canlynol:

DWP FED Consultation
2nd Floor, Caxton House
Tothill Street
London
SW1H 9NA

Nodwch a ydych yn ymateb fel unigolyn neu'n cynrychioli barn sefydliad.

Bydd eich ymateb yn fwyaf defnyddiol os caiff ei lunio mewn ymateb uniongyrchol i'r cwestiynau a ofynnir, er bod croeso hefyd i sylwadau a thystiolaeth bellach.

Diogelu Data a Chyfrinachedd

Efallai y bydd angen trosglwyddo'r wybodaeth a anfonwch atom i gydweithwyr yn yr Adran Gwaith a Phensiynau a chyfeirio ati yn yr adroddiad ymgynghori a gyhoeddwyd.

I gael rhagor o wybodaeth am yr hyn a wnawn gyda data personol, gallwch ddarllen [Siarter Gwybodaeth Personol DWP](#).

Sicrhau Ansawdd

Mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i gynnal yn unol ag egwyddorion ymgynghori'r llywodraeth.

Cefndir

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gwahodd rhanddeiliaid ac aelodau o'r cyhoedd i rannu eu barn ar y Codau Ymarfer canlynol:

- Hysbysiadau Gwirio Cymhwysedd DWP – Mae'r Cod Ymarfer hwn yn darparu esboniad o Fesur Gwirio Cymhwysedd DWP a sut y mae DWP yn disgwyl arfer y pŵer i gyhoeddi Hysbysiad Gwirio Cymhwysedd a chasglu data i wirio hawl i fudd-daliadau.
- Adennill Dyled drwy Orchymyn Didynnu Uniongyrchol ac Anghymhwysio rhag Gyrru – Mae'r Cod Ymarfer hwn yn darparu esboniad clir o Orchymyn Didynnu Uniongyrchol y DWP ac anghymhwysio rhag mesurau gyrru, a sut y mae DWP yn disgwyl arfer y pwerau hynny i adennill dyled yn deg ac yn gyfrifol.
- DWP yn Cael Gwybodaeth i Gefnogi Ymchwiliadau Twyll yn y System Les – Mae'r Cod Ymarfer hwn yn darparu esboniad o fesur Casglu Gwybodaeth DWP a sut y bydd DWP yn disgwyl arfer y pŵer hwn i gael gwybodaeth mewn achosion o dwyll a amheuir gan unrhyw berson, yn amodol ar eithriadau ar gyfer mathau penodol o wybodaeth.

Mae mewnbyn a ddarparwyd gan sefydliadau ariannol, busnesau, elusennau dyled a sector cynghori, adrannau eraill y Llywodraeth a seneddwyr yn ystod pasio Deddf 2025 wedi'i ystyried wrth baratoi'r Codau Ymarfer draft.

Beth yw'r Codau Ymarfer

Hysbysiadau Gwirio Cymhwysedd

Mae'r Ddeddf yn caniatáu i DWP gyhoeddi Hysbysiadau Gwirio Cymhwysedd (Eligibility Verification Notices (EVNs)) i'w gwneud yn ofynnol i fanciau a sefydliadau ariannol eraill edrych ar y data sydd ganddynt ar gyfrifon penodol a darparu gwybodaeth i helpu DWP wirio hawl hawlydd i fudd-daliadau a nodi taliadau anghywir. Bydd y Cod Ymarfer ar gyfer y Mesur Gwirio Cymhwysedd yn darparu gwybodaeth am yr amgylchiadau y gellir cyhoeddi EVN ac yn darparu canllawiau ar gynnwys a chwmpas EVN, a'r defnydd o ddata a gafwyd gan ddefnyddio EVN. Bydd y Cod Ymarfer hefyd yn darparu rhagor o wybodaeth am yr apeliadau a'r prosesau adolygu sydd ar gael i sefydliadau ariannol, y cosbau y gellir eu rhoi i sefydliadau ariannol am fethu â chydymffurfio ag EVN, a diogelu pynciau data a'u data.

Adennill Dyled trwy Orchymyn Didyniad Uniongyrchol ac Anghymhwyso rhag Gyrru

Ehangwyd pwerau adfer dyledion gan y Ddeddf i greu mwy o degwch wrth adennill dyled DWP. Gellir adennill arian sy'n ddyledus i DWP o gyfrif banc unigolyn trwy gyhoeddi gorchymyn didynnu uniongyrchol i'w banc i'w ad-dalu. Yn yr achosion mwyaf difrifol lle mae unigolion wedi osgoi ad-dalu dyled yn barhaus ac yn fwriadol, gall DWP wneud cais i'r llys i anghymhwyso unigolyn dros dro rhag dal trwydded yrru lle mae'r llys yn fodlon bod gan y dyledwr y modd i ad-dalu ac nid heb reswm da. Bydd y Cod Ymarfer yn nodi sut y bydd DWP yn defnyddio'r pwerau adfer newydd, ar gyfer pwy y maent wedi'u bwriadu a'r mesurau diogelu sydd ar waith i sicrhau eu bod yn cael eu cymhwyso yn gymesur ac yn deg gan gynnwys hawliau cynrychiolaeth ac apêl lle bo hynny'n briodol. Bydd y Cod hefyd yn amlinellu'r cyfrifoldebau ar gyfer sefydliadau ariannol wrth arfer gorchymyn didyniad uniongyrchol a'r hyn y mae'n rhaid i lys ei ystyried ar gyfer gorchmynion anghymhwyso trwydded yrru.

Cael Gwybodaeth i Gefnogi Ymchwiliadau Twyll yn y System Les

Cryfhawyd pwerau casglu gwybodaeth presennol DWP gan y Ddeddf i ganiatáu i ymchwilwyr twyll orfodi gwybodaeth berthnasol gan unrhyw ddeiliad gwybodaeth wrth gynnal ymchwiliad troseddol i achos o dwyll a amheuir ar unigolyn adnabyddadwy. Mae'n creu dull sengl ar gyfer casglu gwybodaeth gan bob deiliad gwybodaeth, oni bai bod y math hwnnw o wybodaeth wedi'i eithrio, ac mae'n caniatáu i geisiadau ac ymatebion gael eu gwneud yn ddigidol. Bydd y Cod Ymarfer yn llywodraethu pwerau casglu gwybodaeth wedi'u diweddarau gan DWP a'r Swyddogion Awdurdodedig a fydd yn cael eu hachredu i'w defnyddio.

Pam yr ydym yn ymgynghori?

Mae'r Codau hyn yn amlinellu sut y bydd mesurau DWP penodol yn cael eu cyflenwi yn fanylach, gan adlewyrchu'r ddeddfwriaeth sydd newydd ei sicrhau.

Mae'r Ddeddf PAFER yn cynnwys rhwymedigaeth statudol i'r Llywodraeth ymgynghori'n gyhoeddus ar y Codau ar gyfer y mesurau EVM ac Adennill Dyledion cyn i'r pwerau gael eu defnyddio am y tro cyntaf. Mae'r pwerau Codau ar gyfer Casglu Gwybodaeth yn gosod dyletswydd ar yr Ysgrifennydd Gwladol i ystyried unrhyw sylwadau i'r Cod drafft o dan Adran 3 o Ddeddf Twyll Nawdd Cymdeithasol 2001.

Bydd casglu barn o ystod amrywiol o gefndiroedd a safbwyntiau yn helpu i sicrhau bod pob Cod Ymarfer yn addas i'r diben, gan gefnogi defnydd effeithiol, cymesur a chyfrifol o'r pwerau newydd.

Ehangder Tiriogaethol

Mae'r ymgynghoriad hwn yn berthnasol i Brydain Fawr, gan fod gweinyddu budd-daliadau yn fater rhannol ddatganoledig a neilltuedig i'r Alban a Chymru, yn y drefn honno. Mae gweinyddu budd-daliadau yn fater datganoledig i Ogledd Iwerddon, a rhagwelir y bydd Gogledd Iwerddon yn gwneud deddfwriaeth gyfatebol.